# LC1126

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Gwartheg Hyn (Gwaredu) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau yma’n gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn 716/96 ("Rheoliad y Comisiwn") fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn 2109/2005 sy'n mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion yn y Deyrnas Unedig. Mae Rheoliad y Comisiwn (fel y'i diwygiwyd) yn cyflwyno cynllun sy'n awdurdodi'r awdurdod cymwys yn y Deyrnas Unedig i brynu unrhyw anifail buchol a gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996, ar yr amod nad yw'r anifail yn amlygu arwyddion clinigol BSE a’i fod, yn ystod cyfnod o chwe mis o leiaf cyn ei werthu, wedi bod yn bresennol ar ddaliad yn nhiriogaeth y Deyrnas Unedig.

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud o dan y weithdrefn weithredol ar 18 Ionawr a daethon nhw i rym ar 23 Ionawr.

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**7 Chwefror 2006**